

Gorffennaf 28ain 2014/July 28<sup>th</sup> -- Yr Hen Gapel,Pencader 8.00 pm.

---

Yn bresennol-Cynghorwyr/Councillors present:

Yvonne Griffiths	Val Davies	Melfyn Evans
J.Glyn Jones	Lynn Evans	Annette Davies
Marc Jones	Eirian Jones	Keith Lewis
Raymond Lewis	Sian Thomas	C.Sir Linda Evans.

---

Clerc: S.Anita Evans

Ymddiheuriadau/Appologies: Haulwen Lewis

Absennol/Absent: neb

Ymwelwyr: Olwen Davies,M.Mariott,Meinir Davies,Julie Mathews,Hefin Jones(cyfieithydd).

---

Cadeiriwyd gan Val Davies,a chrosawodd bawb.Yn absenoldeb yr Heddlu,darllenodd y Clerc neges e-bost oddiwrth PCGreensmyth."I have not witnessed any parking problems in Davies St.since July 1<sup>st</sup>.I never really saw a big problem before that,but it seems that a minority of people did.We are maintaining as much in the way of evening time patrols in the Pencader area as we can.This is to try and deter anti social behaviour by youngsters."

---

1)Cafwyd cofnodion Mehefin yn gywir—Yvonne Griffiths yn cynnig,a Melfyn Evans yn eilio.

Materion yn Clerc:

1)Gan fod yr Audit blynyddol wedi ei dderbyn nol o BDO,a bod y pwyntiau i gyd yn gywir,roedd angen ei ail dderbyn ac ail arwyddo.Cynnigiodd Annette Davies ei bod yn iawn i wneud hyn,eiliodd Eirian Jones,ac roedd pawb yn gytun.The annual audit was re-approved –Annette Davies proposed,Eirian Jones seconded,and all agreed.

2)Bu cyfarfod rhwng John McEvoy ac aelodau o'r Cyngor yma ar Davies St Pencader i drafod y parcio,ond does dim y gall y Cyngor Sir wneud ar hyn o bryd.There has been a meeting of Council members and John McEvoy on Davies St.

3)Mae'r Ardal Bicnic ar dop Hewl Talog wedi ei glirio'n daclus.Penderfynwyd gofyn i Haydn Jones gadw llygad ar y tyfiant,a'i dorri pan fo angen.Dywedoddd y Clerc fod angen cadwyn a chlo newydd ar y safle.Cynnigiodd Annette Davies fod hyn i'w wneud,ac eiliodd Raymond Lewis.The Picnic Area has been cleared,and the Council will ask Haydn Jones to keep an eye on the area,and cut the grass when needed.

4)Mae'r golau newydd ar bwys Popty Pencader yn gweithio/the new street lamp by the Bakery is working.

5)Mae'r rhan fwyaf o hewl Gwyddgrug/Pencader wedi cael tarmac newydd/the Pencader/Gwyddgrug road has had improvements.

6)Ar Orffennaf 16eg fe gwrrdodd y Clerc a'r C.S.Linda Evans a Jim Jones a swyddog arall i drafod y broblem o faw cwn ym Mhencader,ac fe dynwyd eu sylw at yr angen am ragor o finiau,a phosteri(yn arbennig o gyffuniau

933)Maescader tuag at Dolgran).Dywedodd Jim Jones fod y ddeddf yn newid yn yr Hydref—er gwell—a bydd hawliau deddfu gan y Cynghorau ar ardaloedd lle mae'r cyhoedd yn cerdded.Ar y 19eg bu cyfarfod arall gyda Marc Davies(C.Sir Gar)ji weld ble i leoli'r biniau newydd.On 16/07 the Clerk and C.C.Linda Evans met with Jim Jones,and an enforcement officer from C.County Council to draw their attention to dog fouling problems,in particular from the entrance to Maescader and along the Dolgran road.We requested many more bins.Jim Jones informed us that the law is changing in the autumn,and Councils will be able to carry out enforcements wherever the public walk.On the 19<sup>th</sup> we met with Marc Davies in order to determine where new bins should be placed.

7)Solid Designs—gwefan y Cyngor—mae'r Clerc wedi cysylltu a'r cwmni,a chael gwybod y bydd yn barod mewn 6-8 wythnos.The new Council web-site—the Clerk has been told it should be ready in 6-8 weeks.

8)Mae'r Clerc wedi dweud wrth y Cyngor Sir am grac ym mhont Cwmgwen,a bod damwain arall wedi digwydd yno.Mae'r Cyngor Sir hefyd yn gwybod am y twll ar yr hewl tu fas Gwasanaethau Valley,a'r gratin tu fas y tai bach yn Alltwalis.The County Council has been informed about the cracks in Cwmgwen Bridge,the hole on the road in front of Valley Services,and the manhole in front of the toilets in Alltwalis.

9)Mae Stuart Wilson wedi gofyn caniatad i osod geraniums coch yn y potiau ar y gofgolofn,yn lle'r pabis sy'n dechrau gwywo.Cynnigiodd Raymond Lewis ein bod yn rhoi caniatad,ac eiliodd Yvonne Griffiths.The Council has granted permission for Mr.Stuart Wilson to replace the poppies on the War Memorial with geraniums.

-----  
2)Ariannol/finacial: cafwyd yr adroddiad yn gywir—Keith Lewis yn cynnig,a Lynn Evans yn eilio.Biliau i'w talu/bills to be paid:salaries,Lyn Evans(accountant)--£228.00;Lyn Jones(trashing)--£190.00;Solicitors Llandysul(public conveniences)--£420.00;Trywydd(translation-x2--£98.40,87.90;Clerk costs—14/05-04/07—£87.60;Sage-£156.00;One Voice Wales A.G.M. £140.00.Marc Jones proposed that the bills be paid,and Annette Davies seconded.

-----  
3)Adran Gynllunio/Planning matters:

Wedi ei ganiatau/granted:

1)W/30240                    stafell haul/sun porch at Nythfa,Llan'el for Mark Daniel.

Newydd/new:

2)W/30401                    extension to an existing building for dry storage of timber,Maesyrfhaf,Pencader Mr.A.Davies.

-----  
4)Gohebiaeth/Correspondence—C.Sir Gar/C.County Council:

1)Codau Tramgwyddau Parcio—polisi C.Sir Gar wedi ei diweddarau ar 19/07/12 a gellir ei gweld ar ei gwefan.The County Council's policy on parking contravention can be seen on the web-site.

2)Ian Edwards wedi cysylltu ynghlyn ac arolygu'r Cornel Chwarae—pris y C.Sir yw £80 + TAW.Cynnigiodd Lynn Evans ein bod yn derbyn y pris hwn ac eiliodd Eirian Jones.The Clerk will contact the County Council,and ask for a playground inspection.

3)Cydnabod cwyn y Cyngor hwn am dir anniben –Capel Troedyrhiw ac Ysgol New Inn(report of untidy premises).

4)Llythyr un iaith Saesneg oddiwrth S.G.Pilliner(Is adran Trafnidiaeth)yn ein hysbysu taw methiant fu ein cais Llwybr Diogel yn y gymuned—palmant i Dremle.Cynnigiodd Marc Jones ein bod yn gofyn i'r swyddog ddod allan i gyfarfod a ni,a chwyno am llythyr un-iaith Saesneg.Eiliodd Yvonne Griffiths.

934) 4) We have again failed in our request for a pavement from Cwmgwen Bridge to Tremle Home for the Elderly. Marc Jones proposed that we invite the officer to our meeting, and Yvonne Griffiths seconded.

5) Tai bach Cyhoeddus: derbyniwyd rhestr hir o waith sy angen ei wneud ar y dair safle. Cafwyd trafodaeth eto p'un a'i eu cymeryd drosodd a'i peidio. Cynnig Raymond Lewis oedd peidio, ac eiliodd Keith Lewis. Cafwyd cynnig arall gan Eirian Jones i gysylltu a'r gymuned drwy holiadur yn Clecs, ac fe eiliodd Yvonne Griffiths. Yr ail gynnis ennillodd. After receiving a long list of jobs that need doing to improve the three toilet sites, there was another discussion whether to take responsibility for the sites or not. Raymond Lewis proposed that we do not take them over, and Keith Lewis seconded. There was another proposal from Eirian Jones that we collect public opinion through Clecs, and Yvonne Griffiths seconded. The latter won the vote.

6) Pont Abernawmor/Abernawmor foot bridge, and a missing public access link on the way past Glandwr, Pencader. (Eirian Jones and Annette Davies here declared an interest as they are neighbours of the farm in question). Gary Carlsen has requested that this Council provides evidence from witnesses who have walked this path for a number of years. Melfyn Evans proposed that we oblige, and Yvonne Griffiths seconded.

Eraill/other: --7) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru—yn helpu C. Sir Gar i fod yn gyngor agored a thryloyw/Welsh Local Govnt. Ass. has been commissioned by C. County Council to help make it the most open and transparent Council in Wales.

8) Un Llais Cymru—cofnodion /One Voice Wales minutes of area meeting.

9) Ombudsman Cymru/Wales Ombudsman—annual report.

10) Y Gynhadledd flynyddol—Hydref 4ydd yn Llanellwedd—bydd Val Davies a'r Clerc yn mynd.

11) E-bost oddiwrth Gerald Coles yn gofyn am help i gyfieithu deunydd Clecs—addawodd Val Davies a Sian Thomas helpu. Val Davies and Sian Thomas have volunteered to help with the translation for Clecs.

12) The following information was sent to the Clerk by the Clerk of Llanpumsaint Comm. Council. Our Council did not have an official communication. IPC—scoping consultation between Western Power and the Sec. of State. Details are on the web-site.

-----  
5) U.F. Arall/AOB/gwybodaeth yn unig/information only:

Eirian Jones----mae darnau o asbestos yn y clawdd ger Windy Corner. There are asbestos sheets in the hedge near Windy Corner.

Yvonne Griffiths---deiliaid Bro Nantlais wedi gofyn am linellau parcio gwyn ar y safle. Mae rhagor o sbwriel ar hewl Gwyddgrug-Pencader. Inhabitants of Bro Nantlais have asked for white parking lines on the site. There is a lot of rubbish strewn on the Gwyddgrug-Pencader Rd.

Marc Jones-----eisiau torri coed wrth fynedfa Troed yr Allt—deiliaid yn methu gweld lan y rhiw/problem with visibility coming out of Troed yr Allt Alltwalis in order to turn right up the hill---trees need to be trimmed.

Glyn Jones-----eisiau rhoi gwybod i'r Heddlu nad yw gyrrwyr yn deall y system un ffordd heibio'r ysgol ym Mhencader. Mae angen torri'r coed ochr Bryndelyn. Hefyd mae angen torri'r coed ar hewl Glantweli Fach. The Police should be informed that drivers are having difficulty in understanding the concept of the one way past the school in Pencader. Trees need to be cut near Bryndelyn, and on Glantweli Fach road.

Annette Davies----pobl yn gofyn am finiau ail-gylchu gwydr ym Mhencader—mae Linda Evans yn ymchwilio. Angen arwydd i stopio cerbydau ddefnyddio'r hewl gert i Faes cader, ochr draw Glanawmor ucha, a sylw i'r tar tu fas

935) Marshlands.C.C.Linda Evans is working on getting glass recycling bins sited in Pencader.We need a sign prohibiting vehicles accessing Maescader on the path opposite Glanawmor ucha,and the tar on the road outside Marshlands needs attention.

Keith Lewis -----angen sylw ar y dreaniau hewl Dolgran/the drains on Dolgran Rd.need to be checked.

Cyhoedd/public:

6)Olwen Davies----yn gwneud ymchwil ar RWE,ac yn gofyn am gopiau o rai cofnodion.Byddan nhw ar gael yn y cyfarfod nesa,--is doing research on RWE,and requests copies of some minutes.They will be available to view in the next meeting.

-----  
6)Apeliadau/appeals—o dan amodau Rheolau Sefydlog/discussed under Standing Orders:Cyfrennir i /donations to:

Kidney Wales £100.00(Annette Davies yn cynnig a Glyn Jones yn eilio)

Canolfan Ddwr Llandysul £200.00(Raymond Lewis yn cynnig a Lynn Evans yn eilio)Eirian Jones yn datgan diddordeb.

Ty Cymorth Caer'in £100.00(Eirian Jones yn cynnig a Melfyn Evans yn eilio)

NSPCC £50.00(Marc Jones yn cynnig a Lynn Evans yn eilio).

Radio Beca £50.00(Marc Jones yn cynnig ac Yvonne Griffiths yn eilio)

Teenage Cancer Trust £100.00(Annette Davies yn cynnig a Sian Thomas yn eilio).

Gofal mewn Galar £50.00(Keith Lewis yn cynnig ac Annette Davies yn eilio).

Victim Support £50.00(Eirian Jones yn cynnig a Lynn Evans yn eilio).

-----

936) 7) Adroddiad ariannol/financial report:

Taliadau/payments

Derbyniadau/receipts:

Haydn Jones	300.51	Yn y Banc Gorff.20fed	£70,216.88
Janet Jones	161.39	Williams Prengwyn(ail-lythrennu x3 a	
Anita Evans	427.26	charreg fedd newydd)	£140.00
Costau'r Clerc	87.60		
Trywydd	98.40		
Cyfrifydd	228.00		
L.Jones(ardal bicnic)	190.00		
Cyfreithiwr Llan'ul	420.00		
Trywydd	87.90		
Cynhadledd U.L.L.C.	140.00		
Apeliadau(uchod)	700.00		
Dwr(Pencader)	26.14		

---

Cyfanswm: £2,867.20 £70,356.88

Yn y Banc Awst 25ain '14 £67,489.68

---